John McGough	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Elliot Phillips	Cyfarwyddiaeth Dechnegol Magnox
Joanna Wright	Prifysgol Bangor
David Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
John Llewelyn Richards (Is-gadeirydd)	Cyngor Cymuned Talsarnau
Kevin Titley	Cydylydd Amgylcheddol Trawsfynydd
Sion Richards	Pennaeth Diogelu Radiolegol Trawsfynydd
Cara Mulholland	Prifysgol Manceinion
John Idris Jones	Parth Menter Eryri
Martin Moore	Cyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd
Rory Trappe	Cynrychiolydd Undeb Llafur Trawsfynydd
Ian Warner	Rhaglen Adfer Safle Magnox
Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
Angharad Rayner	Rheolwr EHSS&Q Trawsfynydd
Michelle Humphreys	Arweinydd Rhanbarthol Cyfathrebu Magnox – Cymru
Samantha Morgan	Trigolyn lleol
Nia Swann Bowden	Parth Menter Eryri, Cyngor Gwynedd
Elfed P Roberts	Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Caroline Jones	Cymen - cofnodion
Gwynfor Owen	Cymen - cyfieithydd

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 13.04.

Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Dafydd Elis-Thomas AC, Cyng Annwen Daniels, Ward Bowydd a Rhiw, Aled Williams, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd ac Idwal Williams, Trawsnewid, Cyng Huw Rowlands, Cyngor Cymuned Llanfrothen, Gareth Thomas, Cyngor Cymuned Penrhyndeudraeth a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017

Eitem 6: Roedd Meredydd Williams Cyngor Cymuned Maentwrog wedi siarad gyda Sion Richards ers y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r canlyniadau samplu dŵr.

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am egluro'r acronymau yn eu hadroddiadau gan ofyn iddynt barhau â'r arfer hwn er mwyn aelodau newydd y grŵp.

Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd i'r cyfarfod, gyda rhai ohonynt yn bresennol; Cynrychiolwyr newydd Cyngor Gwynedd oedd y rhain sef y Cyng Robert Glyn Daniels (Cyngor Gwynedd, ward Diffwys a Maenofferen a Chyngor Tref Ffestiniog), Cyng Annwen Daniels (Cyngor Gwynedd, Ward Bowydd a Rhiw), Cyng Linda Ann Jones, Cyngor Gwynedd, Ward Teigl) a'r Cyng Gareth Thomas (Cyngor Gwynedd, ward Penrhyndeudraeth) a Cara Mulholland, myfyriwr PHD ym Mhrifysgol Manceinion.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu Cyfarfod Cadeiryddion SSG yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear (NDA) ar 18/19 Gorffennaf yn Warrington, Cumbria. Roedd yn amlwg yn ystod y cyfarfod bod safle Trawsfynydd yn arwain y ffordd i nifer o orsafoedd pŵer ar draws y DU. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu cyflwyniad ar ddirwyn contract Magnox i ben yn ogystal â chyflwyniadau ar ganllawiau drafft yr NDA a gwaredu gwastraff niwclear mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol a roddwyd gan Reoli Gwastraff Ymbelydrol.

Mynychodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA ar 19/20 Medi yn Cumbria. Bu'n ddigwyddiad diddorol, gyda gwahanol stondinau arddangos gan sefydliadau a oedd wedi elwa o waith digomisiynu. Roedd detholiad o gyflwyniadau i ddewis ohonynt ac roedd y Cadeirydd wedi mynychu un ar ddigomisiynu parhaus a buddion cymdeithasol.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr ar Gau'r Safle – Martin Moore

Cymerwyd yr eitem hon ar ôl eitem Ian Warner oherwydd bod Martin Moore yn hwyr.

Cyflwynodd Martin Moore ei adroddiad a ddarparwyd yn y pecyn cyn cyfarfod ac adroddodd fod y safle yn gwneud cynnydd da i gyrraedd y cyflwr terfynol.

Roedd y gwaith yn dal i fynd rhagddo ar ffurfweddu storfeydd diogel yr adweithyddion ar gyfer y cam Gofal a Chynnal; nid oedd hwn i'w weld yn allanol gan ei fod i gyd y tu mewn, ac roedd yn cynnwys symud asbestos. Roedd rhyw gymaint o waith allanol ar dynnu canopiâu'r drysau melyn Haskins, fel y gwelir ar glawr blaen ei adroddiad, hefyd wedi'i gwblhau.

Roedd diogelwch yn dal i fod ar lefel dda iawn, sy'n fwy canmoladwy o ystyried faint o waith risg uchel sy'n digwydd ar y safle. Ni chafwyd dim anafiadau cofnodadwy ar y safle ers dros

15 mis. Gwnaed gwaith adrodd rhagweithiol ar y safle, h.y. sylwi ar beryglon posibl sy'n rhoi hyder mawr inni fod y gweithlu yn gofalu am ei gilydd o ran diogelwch. Adroddwyd am rai digwyddiadau cymorth cyntaf, fel y nodwyd yn yr adroddiad; er yn fach, ni chafodd y digwyddiadau hyn eu bychanu ac ymchwiliwyd iddynt gyda'r un lefel o graffu â digwyddiadau lefel uchel. Cynhaliwyd diwrnod hyrwyddo Cymorth Cyntaf a chafodd gefnogaeth dda iawn. Roedd y sefydliad wedi gweithio'n agos gyda'r undebau llafur ar faterion iechyd meddwl. Roedd hyfforddiant cymorth cyntaf ym maes iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl wedi cael ei gyflwyno, a chafodd hynny ei groesawu gan y gweithlu.

Fel rhan o iechyd a diogelwch, roedd y defnydd o ganllawiau yn cael ei hyrwyddo i atal baglu, llithro a chwympo; roedd y lefel gydymffurfiaeth bellach yn uwch na 90%. Roedd Martin Moore yn falch o weld bod pob rhan o'r gweithlu yn cydymffurfio â'r arweiniad a'r rheoliadau iechyd a diogelwch, a oedd bellach yn dangos canlyniadau gwirioneddol.

Rhestrwyd y tueddiadau o'r data oddi ar Ffurflen Cofnodi Gwersi yn ystod y cyfnod, ac roeddent yn cynnwys gweithio ar uchder ar gerbydau dosbarthu; rhoddwyd pwyslais yn awr ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch, gyda gyrwyr dosbarthu a chwmnïau trafndiaeth i wella eu safonau. Maes arall oedd profion offer symudol (PAT) a phwysigrwyd sicrhau bod yr offer yn gyfredol.

Dywedodd Martin Moore fod rhaglen sicrwydd y safle yn mynd rhagddi'n dda a'i fod yn falch bod Trawsfynydd yn cael ei weld fel safle blaengar gyda safonau uchel.

Roedd y gwaith o adfer gweddillion elfennau tanwydd yn safle FED y Gogledd yn mynd rhagddo'n eithaf da, er ei fod ar ei hôl hi oherwydd dibynadwyedd peiriannau a'r ffaith nad oedd ganddynt y darnau sbâr cywir. Er hynny, cafodd swm sylweddol o FED ei adfer. Roedd y safle yn gweithio'n dda yn y bôn. Dywedodd Martin Moore ei fod yn benderfynol o adennill yr amser a gollwyd, a allai gymryd hyd at 12 mis.

O ran y gwaith ar adeiladwaith y safle, roedd llawer iawn o asbestos wedi'i dynnu. Gwnaed archwiliadau rheoleiddiol ac annibynnol o'r gwaith ac ystyriwyd bod safle Trawsfynydd yn esiampl dda ar gyfer symud asbestos. Mae'r safle yn fodlon â chyflwr cyffredinol storfeydd diogel yr adweithyddion yn awr bod canopiâu'r drysau Haskins wedi cael eu tynnu.

Rhodddwyd diweddariad ar staffio, nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd. Roedd shifftiau gweithredol 24 awr wedi cael eu hatal. Ni wnaed unrhyw ddiswyddiadau fel rhan o'r broses hon. Roedd y gweithwyr shifft wedi ymgartrefu'n dda yn eu rolau newydd ac mae'r safle'n falch iawn o ganlyniad y cyfnod pontio hwn i'r staff. Mae gwarchodaeth diogelwch 24/7 yn parhau ac roedd gwelliannau wedi'u gwneud.

Cwestiynau a sylwadau:

Gofynnodd John Richards am esboniad pam bod safle FED y Gogledd yn methu â chadw at ei amserlen. Cadarnhaodd Martin Moore fod profion diweddar wedi datgelu bod angen mwy o waith mewn rhai meysydd i sicrhau bod y safle yn gweithio'n berffaith. Mae'r safle yn ei gyfnod comisiynu gweithredol pan fo profion yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob elfen yn gweithio. Roedd yr holl gwmpas wedi'i gynnwys, roedd 1 folt wedi'i wagio a gwnaed profion i lanhau llawr y folt.

Diolchodd y Cadeirydd i Martin Moore a chanmolodd y cwmni am y gwaith da gydag iechyd a diogelwch ar y safle a chanmolodd y ffaith y gellid trosglwyddo'r arfer da i gwmnïau allanol sy'n ymweld â'r safle.

Cyflwynodd Kevin Titley a Sion Richards ail ran yr adroddiad, gan fanylu ar faint o wastraff a dŵr a aed oddi ar y safle (fel y gwelir yn yr adroddiad). Cynhwyswyd graff yn manylu ar y gollyngiadau Cesiwm blynyddol mewn elifiant hylifol er 1995 yn yr adroddiad mewn ymateb i gais yn y cyfarfod diwethaf a dangosodd fod cynnydd da wedi'i wneud.

Cyflwynwyd diweddariad amgylcheddol an-radiolegol, gan bwysleisio'r gwelliant diweddaraf mwyaf mewn ffigurau ynni o ganlyniad i adael yr hen floc gweithdy a gweinyddu. Gan fod hwn yn adeilad hen ac aneffeithlon, drwy ddiffodd gwasanaethau i'r adeiladau hyn, cafwyd gostyngiad o tua 45MWh yn y defnydd ynni bob mis (sy'n cyfateb i 40 tunnell o CO² y mis).

Nid oedd dim digwyddiadau amgylcheddol pwysig i adrodd amdanynt ers y cyfarfod diwethaf. Fodd bynnag, cafwyd digwyddiad gwastraff lefel isel a rhoddwyd systemau newydd ar waith i leihau'r risg y byddai hyn yn digwydd eto.

Rhoddwyd esboniad am y dogn mwyaf a ganiateir i weithiwr ymbelydredd yn y DU a chyflwynwyd ffigurau yn manylu ar y dognau a dderbyniwyd gan weithwyr yn Nhrawsfynydd, fel y gwelir yn yr adroddiad. Roedd ymbelydredd yn Nhrawsfynydd yn isel iawn a risg fechan iawn oedd i'r gweithwyr ddod i gysylltiad ag ef.

6. Diweddariad ar Gyflwr Terfynol wedi'i Optimeiddio Trawsfynydd – Ian Warner

Rhoddodd Ian Warner ddiweddariad ar y cynnydd gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud o safbwynt y treial 'Canllawiau ar gyfer Rhyddhau Safleoedd Niwclear' (GRR):

Mae Cynllun Oes Trawsfynydd 2017 yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i'r safle ei wneud yn y contract. Mae hyn yn golygu bod y safle wedi symud o fodel tri bocs (hy dwy storfa ddiogel adweithyddion ac un storfa ILW) i fodel pum bocs sy'n cynnwys dymchwel rhan o ganol adeiladau'r pyllau i greu dwy storfa ddiogel ychwanegol o'r adrannau sydd ar ôl. Y bwriad yw delio â'r adeiladwaith sy'n weddill yng ngham Terfynol Clirio'r Safle. Bydd angen tanategu'r LTP o hyd wrth gwrs, ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

Edrychodd y treial Arwain a Dysgu ar gyfer y GRR drafft ar ddichonoldeb cyflwr terfynol wedi'i optimeiddio a allai gynnwys gwaredu gwastraff ymbelydrol sydd wedi'i halogi'n ysgafn ar y safle. Roedd hefyd yn ceisio egluro cyn belled ag y bo modd y gofynion cynllunio tebygol, yr amserlenni a'r effaith y byddai cyrraedd cyflwr terfynol y safle yn ei chael ar y rhaglen waith bresennol.

Mae'r treial yn awr wedi'i gwblhau'n ffurfiol erbyn hyn ac yn seiliedig ar yr hyn y mae'r Cyrff rheoleiddio wedi'i weld hyd yma, maent wedi nodi y gallai Magnox o bosibl gyflwyno dadl dechnegol dros waredu gwastraff ymbelydrol ar safle Trawsfynydd. Fodd bynnag, megis dechrau'r daith yw'r treial ac mae angen tystiolaeth ac eglurhad pellach cyn gallai Magnox fod mewn sefyllfa i gyflwyno cais yn ffurfiol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaredu ar y safle. Mae'n annhebygol y cyflwynid cais o'r fath tan o leiaf 2020-21.

Mae dau bapur strategaeth yn cael eu datblygu ar gyfer Pwyllgor Strategaeth Uwch yr NDA gan edrych ar allbynnau'r broses optimeiddio gan gynnwys argymhelliad ar gyfer sut gallai cyflwr terfynol y safle yn Nhrawsfynydd edrych a'r potensial ar gyfer unrhyw waredu ar y safle.

Rhodddwyd diweddariad ar y gwaith ers yr SSG diwethaf, gan gynnwys sawl sesiwn briffio i grwpiau lleol, cyfarfodydd grŵp strategol, gweithdy EA/CNC ac astudiaethau trafod opsiynau pellach (ar draws y fflyd).

Rhagwelir y bydd fersiwn derfynol y GRR yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus Rheolaeth Reoleiddiol Gymesur ar gyfer Chwefror 2018 i ystyried rheoleiddio safleoedd yn y dyfodol yn ystod cyfnodau olaf y gwaith digomisiynu. Bydd y gwaith hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y posibilrwydd o waredu ar Safleoedd Trwyddedig Niwclear.

Roedd y broses ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â chyflwr terfynol safle Trawsfynydd yn parhau ac ar yr 20fed o Chwefror, byddai Trawsfynydd yn cynnal ymweliad gan Uwch staff o CNC a Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau a Sylwadau

Cadarnhaodd Ian Warner fod yr amserlen ar gyfer y papurau sydd i'w cyflwyno i'r NDA, h.y. y papur pyllau yn ymwneud â'r fflyd gyfan ac y bydd yn ystyried yr holl gyfleusterau pyllau sy'n weddill ac y bydd y papur ar y cyflwr terfynol, sy'n benodol i Drawsfynydd, yn cael ei gyflwyno erbyn Rhagfyr 2018.

Gofynnodd Meredydd Williams pa mor hir y byddai'r ymgynghoriad PRC yn para; cadarnhawyd mai 12 wythnos fyddai hwn. Pwysleisiodd Ian Warner na fyddai'r ymgynghoriad ond yn ystyried y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 ac nid gwaredu ar y safle, a fyddai'n ymgynghoriad ar wahân.

Dywedodd John Richards y byddai'n gwneud mwy o synnwyr ariannol gwaredu ar y safle, er hynny cwestiynodd y samplau a gymerwyd hyd yn hyn, ac nad oedd yn glir pa lefel o waredu oedd yn cael ei ystyried ar y safle. Ymatebodd Ian Warner fod samplau a data ar gyfer lefelau halogiad o dan adeiladau'r pyllau bellach ar gael yn dilyn gwaith drilio o dan slab y llawr. Roedd y lefelau halogiad o dan adeiladau'r pyllau lawer yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac mae'r wybodaeth hon wedi ychwanegu at y wybodaeth gyffredinol am nodweddion y safle hyd yma. Ychwanegodd Richard Clarke fod angen gwneud gwaith ychwanegol i nodweddu rhai ardaloedd yn fwy manwl i gefnogi'r cais ffurfiol am waredu ar y safle ac y bydd hyn yn destun ymgysylltiad Rheoleiddiol arferol â'r safle.

Gofynnodd Meredydd Williams am ragor o wybodaeth am yr ardal halogedig yn y ddaear sy'n gysylltiedig â'r gollyngiadau hanesyddol (1980au) o'r pwll. Cadarnhaodd Ian Warner fod hyn oddeutu 5,000 metr ciwbig, er bod y lefelau halogiad yn gymharol isel.

7. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Cyflwynodd John McGough ei hun; ef oedd yr arolygydd safle enwebedig newydd. Roedd wedi dechrau drwy edrych ar archwiliadau'r 5 mlynedd diwethaf a dywedodd fod 95% o'r archwiliadau hyn yn cydymffurfio. Roedd adroddiad wedi'i gynnwys yn y papurau; felly ni wnaeth John McGough ei gyflwyno'n fanwl, gan dynnu sylw at feysydd arwyddocaol yn unig.

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, roedd wedi cynnal dau archwiliad cydymffurfiaeth trwyddedu, gan edrych ar risgiau sylweddol, yn bennaf i weithwyr. Un mater arwyddocaol oedd y symud o shifftiau 24 awr i system newydd. Roedd hyn yn gofyn am newid yn amodau'r drwydded; felly roedd yn ofynnol i'r ONR gyhoeddi trwydded dan bŵer sylfaenol. Cynhaliwyd dau archwiliad o chwech o amodau'r drwydded - cafodd pob un ei raddio'n wyrdd.

Ni chafwyd dim cwestiynau.

8. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd yr holl arllwysyadau ymbelydrol o safle Trawsfynydd yn dal o fewn y cyfyngiadau a nodir yn y drwydded sylweddau ymbelydrol. Roedd y gwaith monitro presennol yn dal yr un fath ac ni ddangosai ddim achos i bryderu.

Cynhwyswyd crynodeb o'r gweithgareddau rheoleiddio ers mis Mehefin yn yr adroddiad ac archwiliadau arferol a gwaith GRR oedd i'w gweld yn bennaf.

Gweithgaredd gorfodi - cyflwynwyd llythyr rhybudd i'r safle ym mis Gorffennaf ynglŷn â llwyth LLWR (Ystorfa Wastraff Lefel Ise). Er bod camgymeriadau wedi eu gwneud gan Drawsfynydd, cafodd llwythi anghywir eu canfod mewn safleoedd eraill yn y DU. Roedd hwn yn faes o ddiddordeb i'r cyrff rheoleiddio amgylcheddol. Roedd EA a CNC wedi ysgrifennu llythyr ar y cyd i Magnox yn gofyn am adolygiadau safle ac i sicrhau y gallai safleoedd eraill fod yn sicr ynglŷn â llwythi hefyd. Roedd Magnox wedi ymateb yn dda i'r mater, a byddai adolygiadau yn parhau am 12-18 mis. Roedd y materion rheoleiddiol eraill yn gadarnhaol.

O ran y newidiadau yn y gwaith shifft, gwnaed gwaith da o ran asesiadau risg o safbwynt amgylcheddol a rhoddwyd hyfforddiant i staff ynglŷn â'u dyletswydd ar sut i ymateb i ddigwyddiadau ac ati.

Adroddwyd y byddai caniatâd ar waredu'n cael ei roi o bosibl rhywbryd ar ddechrau 2018.

Mae'r gweithredwr wrthi'n cynnal adroddiad ymchwilio gwir achos ynglŷn â'r materion gydag offer samplu aer gronynnol, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach.

Gan edrych i'r dyfodol, roedd cyfarfod ar gyfer safleoedd Cymru wedi'i drefnu ar gyfer y dydd Mercher canlynol, ac roedd archwiliad o holl safleoedd y DU mewn perthynas â rheoli asedau yn mynd rhagddo, gyda Thrawsfynydd yn cael ei archwilio ddechrau mis Mawrth.

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Digomisiynu Niwclear

Cyfeiriodd Jonathan Jenkin at yr adroddiad a oedd wedi'i gynnwys gyda'r papurau.

Ers y cyfarfod diwethaf, roedd yr NDA wedi cyhoeddi'r hysbysiad terfynu yn ffurfiol, gyda'r contract yn dod i ben ym Medi 2019. Roedd Ymchwiliad Holliday i gontract Magnox 2014 wedi cyhoeddi ei adroddiad interim gydag argymhellion dros dro; roedd yr NDA yn cydweithredu'n llawn gyda'r gwaith parhaus hwn a disgwylir adroddiad terfynol i'r Llywodraeth yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd wedi cyfweld ag uwch swyddogion yn y Llywodraeth a'r NDA.

Dywedodd Jonathan Jenkin nad oedd rheolwyr Magnox i'r dyfodol yn debygol o ddod i unrhyw gasgliad nes sefydlu canlyniad Ymchwiliad Holliday.

Rhodddwyd diweddariad ar weithgareddau cwmni rheilffordd Blaenau i Drawsffynydd, grŵp sy'n cael ei arwain gan Colin Dale a nifer o wirfoddolwyr.

Ym mis Ionawr 2017, ysgrifennodd adran Eiddo NDA at y grŵp i'w hysbysu na fyddai hawliau drwy feddiannaeth i ddefnyddio'r rhannau o'r trac a'r tir sy'n perthyn i'r NDA yn cael eu caniatáu. Roedd y grŵp wedi bod yn siomedig gyda'r wybodaeth hon ond derbynient y penderfyniad. Fodd bynnag, roedd y grŵp wedi parhau â'u gweithgareddau ac yn dilyn archwiliadau safle diweddar, roedd yn ymddangos bod y grŵp wedi cael mynediad i ran o'r trac sy'n eiddo i'r NDA. Roedd yr hawliau perchnogaeth yn eithaf cymhleth, gyda phartïon eraill yn berchen ar rai rhannau o'r trac. Roedd yr NDA bellach yn edrych ar y camau nesaf ac roedd yn awyddus i gysylltu â pherchnogion eraill y trac gan na allai NDA ond gorfodi rhai rhannau yn unig.

Roedd Panel nawdd cymdeithasol economaidd yr NDA yn cyfarfod ar 11 Rhagfyr lle byddai cais i gefnogi Cam III o Raglen Drawsnewid Trawsfynydd yn cael ei drafod.

Cwestiynau a Sylwadau:

Diolchodd Meredydd Williams i Jonathan Jenkin am ei lythyr ynglŷn â thrac y rheilffordd a diolchodd i'r NDA am ymchwilio i'r berchenogaeth er budd y cymunedau lleol

Gan fod gorsaf Maentwrog yn cynhyrchu pŵer, gofynnodd Meredydd Williams a ddylai'r gymuned leol gael mwy o lais ynglŷn â lle dyrannwyd yr arian ac y dylai'r meini prawf ariannu gael eu llacio ar gyfer Maentwrog. Cadarnhaodd Jonathan Jenkin mai panel lleol oedd yn ystyried y ceisiadau a phwysleisiodd fod yna feini prawf penodol i'w bodloni; nid oedd safbwyntiau lleol yn cael eu heithrio ac fe'u cymerwyd o ddifrif. Yn y pen draw, roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y budd economaidd cymdeithasol gorau.

Dywedodd Richard Clarke ei fod wedi gweld posteri yn cael eu harddangos yn lleol yn hysbysu ailagor y rheilffordd. Ychwanegodd Meredydd Williams na fu unrhyw ymgynghori cyhoeddus a bod grwpiau'n awyddus i'w hailagor, fodd bynnag, roedd angen cadarnhau perchnogaeth y lein cyn gellid symud ymlaen. Dywedodd Jonathan Jenkin fod rhywfaint o bryder ynglŷn â'r gwaith a wnaed eisoes i'r trac a oedd wedi achosi difrod ac y gallai'r lein fod o werth, yn dibynnu ar werthoedd economaidd y parth menter ac na fyddai eisiau unrhyw weithgareddau a allai atal y cynlluniau hyn.

Gofynnodd Rory Trappe ai Network Rail oedd piau'r trac gan iddynt gael eu gweld yn gwneud gwaith atgyweirio yn ddiweddar. Ni allai Jonathan Jenkin gadarnhau hyn.

10. Cyflwyniad ar Ddatgymalu Adweithyddion - NDA

Parhaodd Jonathan Jenkin gyda'r eitem hon ar ran Simon Boniface, a fyddai yn yr ardal eto ac a allai roi cyflwyniad os oedd angen.

Rhodddwyd crynodeb byr o'r strategaeth ddigomisiynu cyn belled. Rhestrwyd manteision arfaethedig y strategaeth gan gynnwys pydredd ymbelydrol, gan osgoi'r angen am storio gwastraff dros dro cyn ei gludo a lleihau costau cylch bywyd yn sylweddol. Rhestrwyd nifer y risgiau ochr yn ochr â'r manteision, a oedd yn cynnwys colli sgiliau, gwybodaeth a gallu i ymgymryd â'r gwaith clirio terfynol ar y safle; colli cofnodion a gwybodaeth o bosibl; llai o le i'r gadwyn gyflenwi gyfrannu at waith digomisiynu Magnox; byddai'r peryglon pennaf yn y camau digomisiynu diweddarach yn fwy confensiynol na radiolegol; potensial ar gyfer costau uwch oherwydd dirywiad asedau a'r angen posibl i gaffael gwybodaeth cyn y gwaith datgymalu terfynol; cymryd tir y gellid ei ddefnyddio at ddibenion eraill; ansicrwydd ynglŷn ag amgylchiadau economaidd a safonau rheoleiddio i'r dyfodol.

Eglurodd Jonathan Jenkin yr hyn a oedd wedi newid ac roedd y rhain yn cynnwys: dangosai'r datblygiadau mewn digomisiynu pell y gellid datgymalu'r adweithyddion yn brydlon ar ôl cau heb angen mynediad sylweddol i'r gweithwyr; profiad sylweddol o drin a pheycynnu ILW yn safleoedd Magnox; roedd polisïau'r Llywodraeth ar reoli gwastraff mwy actif (HAW) yn canolbwyntio ar ymchwilio i opsiynau eraill ar gyfer gwaredu; roedd llwybrau gwastraff newydd ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff lefel isel i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, ailgylchu metelau a storio HAW dros dro ac, os ffafriwyd cyfnod gohirio byrrach, roedd cyfle i osgoi gwariant ar rai paratodau gofalu a chynnal mewn rhai safleoedd.

Fel yr addawyd yn Strategaeth 3 NDA, roedd Magnox wedi datblygu a gwerthuso opsiynau credadwy ar gyfer amseriad y gwaith o ddatgymalu'r adweithyddion. Roedd yr NDA yn adolygu a ellid gwneud achos i newid y strategaeth bresennol, er hynny nid oedd dim penderfyniadau wedi'u gwneud eto. Byddai adolygiad yr NDA yn ystyried amseriad a threfn y gwaith o ddatgymalu adweithyddion Magnox ar draws fflyd Magnox yn y DU. Roedd Cam 1 yn cynnwys cyflwyno dadl dros newid y strategaeth bresennol a byddai angen cymeradwyaeth gan y Llywodraeth. Pe llwyddwyd i gyflwyno dadl dros newid, byddai'r NDA yn ystyried pa safle(oedd) i'w cyflymu'n gyntaf.

Rhestrwyd y ffactorau a allai ddylanwadu fwyaf ar yr amseriad, sef: rheoli gwybodaeth; cadwyn gyflenwi / arloesi; clirio safle(oedd) yn gynnar er mwyn gallu eu rhyddhau at ddibenion eraill, gan gynnwys opsiwn 'newydd am hen' ar gyfer adeilad niwclear newydd; cadw gwybodaeth; osgoi colli staff medrus; buddsoddi mwy yn sgiliau 'niwclear' y DU, annog effeithlonrwydd a'r gallu i ddatblygu busnes yn y DU neu dramor; cefnogi Strategaeth Ddiwydiannol BEIS; mwy o hyder yn niwydiant niwclear y DU yn gyffredinol - yn fwy tebygol o gael buddsoddiadau a chefnogaeth ar gyfer cenadaethau newydd; synergeddau AGR a Magnox ac oedran safleoedd a chyflwr asedau.

Ymhlith y ffactorau a ddylanwadai fwyaf ar ddewis y drefn yr oedd: rheoli gwastraff, storio interim neu opsiynau gwaredu eraill; synergeddau gyda phroses digomisiynu AGR; Calder Hall; y gallu i arwain a dysgu rhwng un safle a'r llall; fforddiadwyedd a chostau oes; ffactorau lleol - effaith ar safleoedd penodol; cenadaethau newydd - newydd am hen; rheoli asedau sy'n heneiddio; pa adnoddau sydd ar gael a'r gallu i'w defnyddio.

Cyflwynwyd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a oedd yn cynnwys cymryd gwaith Magnox a datblygu safbwynt y DU – dadl dros newid; yr amseriad a'r drefn wedi'u harchwilio mewn dau gam penodol; casglu sail rifiadol gwaith Magnox, yn benodol gyfraddau cynhyrchu gwastraff, gofynion y pecyn ac effeithiau safleoedd sy'n heneiddio; galluogwyr strategol, sef y gadwyn gyflenwi, manteision ac anfanteision, cyfraniad CCC y DU, cynnal gwybodaeth a sgiliau digonol, arbedion gyda dull gweithredu parhaus (dim dechrau/stopio, arbedion), gan alluogi cenadaethau eraill: h.y. rhyddhau tir yn gynharach a'r berthynas rhwng gorsaf Magnox 'A' ac AGR 'B'.

O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, roedd gan yr NDA ddiddordeb mawr mewn clywed barn rhanddeiliaid, yn enwedig am y ffactorau sydd bwysicaf i'r rhanddeiliaid. Dangoswyd llinell amser ymgysylltu drafft ar gyfer digwyddiadau yn y DU, gan gynnwys cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid.

Roedd yr NDA bellach yn ystyried a ellid cyflwyno dadl dros newid strategaeth. Byddai cyfyngiadau megis adnoddau a fforddiadwyedd yn golygu nad oedd cyflymu'r broses ar draws y fflyd yn ymarferol. Roedd yn debygol o gyflwyno dadl dros rhwng un a thri safle. Byddai adborth rhanddeiliaid yn hysbysu'r ddadl dros unrhyw newid yn y strategaeth a pha safleoedd a ddylai gael eu cyflymu yn gyntaf.

Cwestiynau a Sylwadau:

Gofynnodd Meredydd Williams a oedd llinell amser digomisiynu Trawsfynydd yn debygol o newid. Ymatebodd Jonathan Jenkin y byddai'n rhaid cyflwyno dadl dros unrhyw newidiadau h.y. i newid y strategaeth. Pe rhoddwyd cymeradwyaeth, byddai'n rhaid ystyried wedyn pa safleoedd y dylid eu cyflymu yn gyntaf. Byddai angen barn rhanddeiliaid ar gyfer hyn. Roedd nifer o safleoedd yn tueddu i fod yn safleoedd ffafriol ar gyfer broses gyflym a byddai Trawsfynydd yn cael ei ystyried yn un ohonynt ac os ceir cadarnhad byddai'r llinell amser yn newid. Nid oedd yn bosibl rhoi dyddiad ar gyfer hyn gan fod y rhaglen yn dal i gael ei datblygu a gan fod angen cymeradwyaeth y Llywodraeth.

Gwnaeth Rory Trappe sylw ar bapur gwyn strategaeth y Llywodraeth gan gyfeirio at ddigomisiynu, gan ddweud bod yna'n bendant potensial i'r adolygiad hwn ddangos sut roedd yn cefnogi'r strategaeth. Roedd angen i'r adroddiad ddangos manteision clir i'r gadwyn gyflenwi.

Derbyniwyd cwestiwn o'r llawr yn gofyn am gadarnhad ynglŷn ag a oedd Jonathan Jenkin yn cyfeirio at y gwaith Clirio Terfynol ar y Safleoedd. Cadarnhaodd ei fod, a bod hwn yn newid sylweddol.

Gwnaeth Rory Trappe sylw am y gwaith Clirio Terfynol ar Safleoedd, o ran na allai ddigwydd dros nos, ac y gallai gymryd sawl blwyddyn i gael y gwaith wedi ei wneud neu hyd yn oed ei ddechrau. Er enghraifft, roedd tynnu'r graffit a'r gwaith dur yn peri pryder oherwydd bod llawer iawn o ddeunyddiau i'w symud. Ymatebodd Jonathan Jenkin y gallai'r gwaith gymryd mwy o amser na'r bwriad, a dyna pam yr oedd yn rhaid bod yn ofalus gyda'r amserlen.

Cafwyd cwestiwn o'r llawr yn gofyn pa mor realistig oedd adeiladu SMR (Adweithydd Modiwlaid Bach) ar safle Trawsfynydd. O ran y potensial am SMR, dywedodd Jonathan Jenkin ei fod yn credu y gallai fod yn bosibl. Byddai cyhoeddiad ar SMRs yn dod i law maes o law ac roedd Trawsfynydd wedi'i ddewis fel un lleoliad addas.

Dywedodd Rory Trappe fod Rolls Royce wedi rhoi rhywfaint o ymdrech i gynhyrchu SMRs yn y DU.

11. Diweddariad ar Gynllun cymdeithasol-economaidd Magnox

Fe wnaeth Michelle Humphreys ddiweddarau'r aelodau ar y cynllun cymdeithasol-economaidd. Cefnogwyd 96 o geisiadau yn genedlaethol ar draws pob safle, gyda 9 o geisiadau llwyddiannus gan Drawsfynydd yn elwa o gyfanswm o £75,509. Rhestrwyd manylion y ceisiadau llwyddiannus yn yr adroddiad a ddarparwyd gyda'r papurau cyfarfod.

12. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd

Cymerwyd hwn yn gynharach yn y cyfarfod.

13. Datblygu Safle Trawsfynydd – Sesiwn Wybodaeth

Gwnaeth John Idris Jones, Cadeirydd Parth Menter Eryri, gyflwyniad i'n hatgoffa o gyd-destun economaidd y gwaith yn Nhrawsfynydd a Llanbedr.

Roedd Llanbedr yn amgylchedd gofod awyr unigryw, a oedd yn addas ar gyfer profi awyrennau di-griw a dronau. Roedd pennawd diweddar yn y Daily Post yn anghywir, gan ddweud mai gan Shetland oedd y tir gorau ar gyfer rocedi, ond Llanbedr sydd â'r ardal orau ar gyfer esgyniad llorweddol. Ar hyn o bryd roedd y maes awyr o ddiddordeb masnachol mawr; ni allai John Idris Jones ddatgelu manylion gan fod y trafodaethau'n parhau. Roedd partneriaeth dda gyda rhanddeiliaid safle er mwyn tyfu'r fasnach ar gyfer awyrofod, e.e. i lansio lloerennau a'r diwydiant technoleg cysylltiol. Roedd gwaith yn parhau i nodi Llanbedr ar gyfer hyn, gyda'r nod o ddenu swyddi lefel uchel. O ran datblygiad y safle, roedd popeth wedi cael ei ddymchwel pan gaewyd ef ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ailsefydlu'r rhain. Roedd angen buddsoddi yn y seilwaith a gwnaed cais cynllunio i wella mynediad i'r safle; byddai gofyn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen.

Roedd sgysiau yn mynd rhagddynt gyda'r ganolfan dysgu oedolion yng Ngholeg Harlech ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfleusterau'r coleg ar gyfer hyfforddiant a llety tra roedd y gwaith ar y safle yn mynd rhagddo.

Cafwyd sgysiau gyda darpar ddatblygwyr SMR ar gyfer Trawsfynydd. Roedd yn debygol y gallai'r gwaith gymryd 3-4 blynedd i wneud y paratodau ar y safle. Pan fydd yn barod i weithredu, disgwylir i 200-300 o swyddi technegol gael eu creu, yn ogystal â'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cyflenwadau i'r orsaf bŵer. Y gobaith oedd y mai Trawsfynydd fyddai'r SMR cyntaf lle bo'r modiwlau yn cael eu hadeiladu mewn ffatri; a byddai hynny'n gostwng y costau adeiladu'n sylweddol.

Fe wnaeth John Idris Jones ddiweddarau'r grŵp ar y gwaith diweddaraf a wnaed gan y Parth Menter, h.y. ymgysylltiad lleol â'r cyngor, y Llywodraeth, undebau llafur a mynegodd ei ddiolch i Magnox a'r NDA am eu cefnogaeth gan eu canmol am eu hagwedd gadarnhaol ac

am dderbyn ymweliadau â'r safle. Disgwylir map ffordd SMR Llywodraeth y DU maes o law, ynghyd â'r camau nesaf ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

Dywedwyd bod Prifysgol Bangor wedi sefydlu canolfan niwclear yn y brifysgol, a oedd yn bwysig gan fod y llwyfan prawf hydrologig thermol yn cael ei ddatblygu yn y parc gwyddoniaeth newydd yn Ynys Môn; roedd hyn yn hanfodol i'r SMR.

O ran diogelwch, disgwyliwyd llawer o gwestiynau ac eglurodd John Idris Jones fod y cyrff rheoleiddio yn annibynnol ar y diwydiant. Roedd SMR newydd yn gostus ac ni geid buddsoddiad heb sicrwydd diogelwch. Roedd gwastraff yn fater arall, a chyfeiriodd John Idris Jones at wledydd Sgandinafaidd a oedd wedi dangos cyfleuster gwaredu daearegol, ar sut i waredu gwastraff lefel uchel. Roedd lefelau canser yn Nhrawsfynydd hefyd wedi bod yn bwnc a drafodwyd yn fawr, a dywedodd John Idris Jones fod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud astudiaethau helaeth a oedd wedi dangos nad oedd lefel y clefyd yn yr ardal yn uwch.

Cwestiynau a Sylwadau:

Dywedodd y Cadeirydd y byddai SMR newydd yn Nhrawsfynydd yn creu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol, h.y. i hyfforddi gweithwyr ar gyfer safleoedd SMR eraill yn y DU.

Gofynnodd John Richards a oedd siawns 100% y byddai'r busnes lloeren yn cael ei sefydlu yn Llanbedr, ac atebodd John Idris Jones mai penderfyniad masnachol oedd hwn, i'w gadarnhau, ond fod yna ddadl gref dros y datblygiad.

14. Unrhyw Fater Arall

Rhoddodd Elliot Phillips, Gwyddonydd Amgylcheddol, Magnox wybodaeth i'r grŵp ar adolygu'r rhaglen fonitro amgylcheddol yn Nhrawsfynydd. Rhoddwyd esboniad o fonitro amgylcheddol, h.y. i asesu ymbelydredd, roedd rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hyn. Roedd gan y safle drwydded, ar gyfer amrywiol niwclidau.

Dangoswyd siart llif, a ddangosai'r hyn a gâi ei fonitro yn Nhrawsfynydd a sut y caiff ei fonitro; roedd y rhain yn cynnwys fflora a ffawna ar y tir ac yn y dŵr.

Rhestrwyd prif egwyddorion monitro Asiantaeth yr Amgylchedd, sef: bod y manteision yn fwy na'r effeithiau; cymesur; i fodloni pryderon rhanddeiliaid; yn seiliedig ar awdurdodiadau ac wedi'i optimeiddio.

Dangoswyd graffiau a ddangosai'r amrywiol ollyngiadau dros gyfnod hanesyddol, gan ddangos eu bod yn is na'r terfynau gosod. Ni ddylai'r gwaith digomisiynu sy'n weddill arwain at ddim cynnydd sylweddol yn y data.

O fewn ei adolygiad o'r rhaglen fonitro, roedd Elliot Phillips wedi bod yn edrych ar ddogneau i bobl leol. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn gostwng, ac roeddent yn awr ymhell o dan y trothwy rheoliadol. Gallai hyn arwain at leihau'r rhaglen fonitro i'r dyfodol.

Fel un o ganlyniadau'r adolygiad, roedd Magnox yn edrych ar weithredu'r rhaglen fonitro amgylcheddol newydd yn 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i Elliott Phillips am y cyflwyniad a'r graffiau defnyddiol.

15. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Llun 4 Mehefin 2018 o bosibl gydag ymweliad safle yn y bore cyn y cyfarfod yn y prynhawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.55.